**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4ydd Mai 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy**

Yn bresennol

Simon Fysh
Celia Blomeley
Jane A Eyton-Jones

Colin Everett, Clerc
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Merfyn Thomas
Y Cyng. Glyn Williams

1 DATGANIAD O FUDDIANT

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR CHWEFROR 18fed 2010

2.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 18fed 2010 yn gofnod gwir a chywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Cadarnhawyd fod copi o lythyr y Clerc a oedd yn ymateb i'r pryderon a leisiwyd gan yr aelodau yn y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu i'r holl aelodau presennol a'r cyn aelodau.

3.2 Fe ailddatganwyd penodi aelodau annibynnol newydd yn ystod cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar Fawrth 15fed 2010.

3.3 Cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub i ailystyried y cynnig o gydnabyddiaethu aelodau annibynnol. Fe drafodir hyn yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mehefin. Roedd yr aelodau yn cydnabod y dylid cymesur ymrwymiad yr unigolyn i'r pwyllgor.

3.4 Roedd Aelodau wedi awgrymu y gallai aelodau'r Pwyllgor Safonau fel rhan o'u rhaglen waith edrych ar ffurflenni cais teithio a chynhaliaeth Aelodau'r Awdurdod, ond cynghorodd y Clerc nad yw'r aelodau'n hawlio lwfans teithio ag eithrio eu bod yn mynychu cyfarfodydd ac mai prin y byddai gofyn iddynt aros i ffwrdd o gartref dros nos ar fusnes yn ymwneud â'r Awdurdod. Ni fydd y Pwyllgor yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

4 MATERION ALEODAETH

4.1 Hysbysodd y Clerc fod Samindre Soysa wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor oherwydd ymrwymiadau teuluol. Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch yn

swyddogol i Samindre Soysa am ei waith ar y Pwyllgor a gofynnodd i'r Clerc anfon llythyr ato ar ran y Pwyllgor.

4.2 Bydd y broses o recriwtio aelod newydd yn dilyn yr un drefn a'r tro diwethaf a bydd y Clerc yn sicrhau y caiff y panel dethol yr awdurdod ddirprwyol i benodi aelod newydd.

4.3 Roedd gan y Cadeirydd fater i'w godi ynghylch cynnwys i'r panel dethol bobl y byddai gofyn, efallai, i'r Pwyllgor Safonau eu beirniadu petai cwyn yn cael ei dwyn yn eu herbyn a chwestiynodd os oedd mater ynghylch annibyniaeth. Nid oedd yr Aelodau eraill yn credu fod hyn yn fater o bryder yn enwedig gan fod aelod lleyg ar y panel dethol.

4.4 Gan fod Samindre Soysa wedi ei enwebu yn Is-gadeirydd yn y cyfarfod diwethaf, roedd rhaid i'r pwyllgor enwebu is-gadeirydd newydd.

4.5 **Cynigodd Celia Blomeley enw Jane Eyton-Jones fel is-gadeirydd a chafodd hyn ei eilio gan y Cadeirydd.**

5 HYFFORDDIANT

5.1 Teimlodd y Cadeirydd mai'r hyfforddiant orau i aelodau annibynnol fyddai mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub. Nodwyd hefyd fod sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal cyn cyfarfodydd yr Awdurdod a fyddai o bosib o ddiddordeb.

6 POLISI CWYNION A BLAENRAGLEN

6.1 Mae copïau o'r polisi cwynion cyfredol, trefn gwyno cam 3 a drafft o bolisi cwynion yr Ombwdsmon wedi eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

6.2 Hysbysodd y Clerc fod dau gwyn diweddar wedi cyrraedd trefn gwyno cam 3 ac roedd rhaid i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Aelod arall o'r Awdurdod wrando ar y cwynion. Er nad yn fater mewn cyfarfodydd diweddar, teimlir y bydd cael aelod o'r Pwyllgor Safonau ar y panel cwynion yn cynorthwyo i sicrhau annibyniaeth a thegwch.

6.3 Cwestiynau a godwyd ynghylch y polisi cwynion oedd:

- A yw'r swyddog cwynion yn cysylltu â'r achwynydd i ofyn os oeddent yn hapus gyda'r modd y deliwyd gyda'u cwyn ac os oeddent yn fodlon gyda'r canlyniad.
- A yw gwersi'n cael eu dysgu o gwynion blaenorol ac a yw'r canlyniadau'n cael eu rhannu ar draws y Gwasanaeth.
- A yw profiadau'n cael eu rhannu gyda Awdurdodau eraill.
- A oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.
- Dim sôn am gyfyngiad amser parthed pryd y dylai achwynydd gwyno neu pryd y bydd gofyn i'r achwynydd benderfynu os ydynt yn hapus gyda'r canlyniad ai peidio.
- A oes arweiniad ar gael ar sut i gynnal archwiliadau.

- Nid yw'n datgan yn y polisi fod cyfrifoldeb ar yr achwynydd i gyflwyno tystiolaeth.
- Dim sôn am Safon profi/cydbwysedd tebygolrwydd

6.4 **Cytunwyd y dylid ymchwilio i'r uchod ac y dylid adrodd yn ôl am y wybodaeth gyda'r aelodau yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Cytunwyd i wahodd y Swyddog Cwynion i'r cyfarfod nesaf.**

6.5 Dylai'r daflen gwynion sydd yn atodol i'r polisi cwynion fod yn fwy ac roedd ychydig o fân faterion megis rhifau ffôn yn cael eu hailadrodd, y ffont yn rhy fach ac yn lliw anghywir os am gydymffurfio gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

6.6 Nodwyd fod yr Ombwdsmon yn y broses o greu polisi cyson er mwyn ei defnyddio gan holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yr aelodau eisiau sicrhau na fydda'i polisi yn broses fiwrocrataidd.

7 CHWYTHU'R CHWIBAN

7.1 Gofynnodd aelodau am bolisi chwythu'r chwiban y Gwasanaeth ac os oedd gan y Gwasanaeth bolisi o'r fath. Os oedd polisi o'r fath mewn bodolaeth a oedd ymwybyddiaeth ohono o fewn y Gwasanaeth. Roeddent hefyd yn awyddus i gael gwybod os oedd unrhyw achosion a beth oedd y lefel ymddiriedaeth y rheolwyr a'r Undebau Cynrychiadol yn y polisi.

7.2 Teimlodd Aelodau y byddai o fudd gweld ystadegau a'r modd y mae'r polisi yn cael ei defnyddio a'i hystyried yn ddiwylliannol ac os ydyw'n cynhyrchu ymddiriedaeth yn y drefn cwynion ar draws y sefydliad. Fe gwestiynodd yr Aelodau yn ogystal a yw'r polisi yn cael ei defnyddio ar gyfer adrodd am arferion drwg yn fewnol ac os oes oedd modd amddiffyn yr achwynwyr.

7.3 Oherwydd maint y sefydliad a'r cadwyn reoli, fe atgoffodd y Clerc yr aelodau ei bod yn bwysig cadw'r gwaith sydd yn cael ei wneud ar y polisi yn gymesur â pha mor aml y caiff ei defnyddio.